

ANNA MARIA 'SETTELA' STEINBACH



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Llwyddodd Aad Wagenaar, newyddiadurwr o'r Iseldiroedd, i adnabod 'y ferch â sgarff am ei phen' ar ddechrau'r 1990au fel Anna Maria 'Settela' Steinbach, merch Romani. Yma mae Rainer Schulze, Athro Hanes Ewropeaidd Modern ym Mhrifysgol Essex, yn rhannu ei stori.



Roedd y Natsïaid am gael gwared yn llwyr ar Roma a Sinti Ewrop: bu farw mwy na 220,000 drwy gael eu llofruddio neu o ganlyniad i newyn neu afiechydon. Cafodd llawer rhagor eu carcharu, eu defnyddio fel llafur gorfodol neu eu gorfodi i gael eu sterileiddio a chael eu defnyddio ar gyfer arbrofion meddygol. Ddechrau'r 1990au fe wnaeth Ian Hancock, ysgolhaig ac ymgyrchydd Roma, gyflwyno'r term *Porajmos* (sy'n cael ei sillafu fel *Porrajmos* hefyd) ar gyfer erledigaeth y Roma a'r Sinti yn ystod cyfnod y Natsïaid. Mae'r term yn golygu 'difa' neu 'dinistrio' mewn rhai tafodieithoedd o'r iaith Romani, Romanes.

Settela ar y trê'n i Auschwitz (cydnabyddiaeth: ffilm Westerbork gan Rudolf Breslauer, 1944, NIOD, Amsterdam)

Bydd llawer o bobl sy'n ymddiddori yn yr Holocost wedi dod ar draws y ddelwedd o ferch â sgarff am ei phen yn edrych allan drwy ddrws agored wagen gwartheg cyn i'r trê'n adael am Auschwitz. Fe'i tynnwyd ym mis Mai 1944 yng ngwersyll dros dro Westerbork yng ngogledd-ddwyrain yr Iseldiroedd, lle cafodd Iddewon y wlad eu dal cyn cael eu cludo i'r gweryslyoedd difodi yn y dwyrain. Mae'r llun yn llawn mor enwog yn yr Iseldiroedd â'r llun o Anne Frank. Yn wir, y tu hwnt i ffiniau'r Iseldiroedd, mae'r ddelwedd arswydus hon o ferch ifanc, ddiniwed a bregus yn cael ei chludo i'w marwolaeth wedi dod yn symbol o ddiodefaint yr Iddewon.

Cafodd ei hadnabod am ddegawdau fel 'y ferch â sgarff am ei phen', a chymerwyd yn ganiataol mai Iddewes oedd hi. Ond diolch i waith ditectif diflino Aad Wagenaar, newyddiadurwr o'r Iseldiroedd, ar ddechrau'r 1990au, rydym ni'n gwybod yn union pwy oedd hi. Roedd ffrwyth llafur ei waith ymchwil yn annisgwyl iawn: nid Iddewes oedd y ferch o gwbl, ond merch Romani naw mlwydd oed o'r Iseldiroedd o'r enw Anna Maria 'Settela' Steinbach.

Ganwyd Settela ar 23 Rhagfyr 1934 i deulu Sinti traddodiadol yn Buchten yn ne-ddwyrain yr Iseldiroedd, lle'r oedd y teulu wedi gosod eu carafán ar gyfer misoedd y gaeaf yng 'ngwersyll y Sipsiwn'. Roedd Anna Maria Druysens, gwraig y meddyg lleol, yn gwahodd y Sinti i dreulio'r Nadolig yn ei thŷ bob blwyddyn. Pan glywodd am yr enedigaeth, cytunodd i fod yn fam fedydd i'r ferch fach. Dyma sut cafodd Settela ei henw swyddogol, Anna Maria.

Roedd tad Settela'n gweithio fel masnachwr a feiolinydd mewn cerddorfa Sinti mewn gwyliau a ffeiriau lleol. Ei mam oedd yn gyfrifol am yr aelwyd a magu'r plant, saith i gyd, wrth iddyn nhw symud o un pentref i'r llall. Roedd y teulu'n hanu o'r Almaen, ac mae'n siŵr y bydden nhw wedi clywed bod pethau wedi gwaethygu i'r Sinti a'r Roma ers i'r Natsïaid ddod i rym.



@HMD_UK

hmd.org.uk



/HMD.UK

Ym mis Mai 1940, meddiannodd y Natsïaid yr Iseldiroedd, ond wnaethon nhw ddim targedu'r Sinti a'r Roma yn syth. Ym mis Gorffennaf 1943 y pasiwyd gorchymyn yn eu gwahardd rhag teithio mewn wagenni, a chafodd y Sinti a'r Roma i gyd eu gorfodi i un o 27 gweryll ymgynnull dan reolaeth gardiau. Ceisiodd y teulu Steinbach osgoi'r gorchymyn, ond ymhen hir a hwyr fe gawson nhw eu hanfon i'r gweryll ymgynnull canolog yn Eindhoven. Daeth yr heddlu i nôl tad Settela, Heinrich 'Moeselman', o'r gweryll. Fe oroesodd y rhyfel a bu farw ym 1946.

Ar 14 Mai 1944 cafodd heddlu'r Iseldiroedd orchymyn i symud pob 'teulu Sipsi' o'r gwerylloedd ymgynnull i wersyll dros dro Westerbork. Ddeuddydd yn ddiweddarach, casglwyd Settela a'i theulu. Yn Westerbork, cafodd pen Settela ei eillio, fel pob merch a menyw Roma arall, a gwisgodd ddarn o liain i guddio'i phen moel fel y gallwn weld yn y llun.


Anfonwyd cyfanswm o 547 'sipsi' i Westerbork. Fodd bynnag, ar ôl ymchwiliadau pellach gan awdurdodau'r gweryll, daeth yn amlwg nad Roma oedd dros eu hanner er eu bod yn byw mewn wagenni, neu roedd ganddyn nhw basportau tramor, ac felly fe gawson nhw eu rhyddhau o'r gweryll. Rhoddwyd y 245 o Sinti a Roma oedd yn weddill ar drên gwartheg ac fe'u cludwyd i Auschwitz-Birkenau ar 19 Mai 1944.




Gweryll dros dro Westerbork
(credvd: Yad Vashem, Jerwsalem)

Ar ôl cyrraedd, cawsant eu rhoi yng Ngweryll Teuluoedd Sipsi Auschwitz. Cafodd y rhai a oedd yn ddigon abl i weithio eu cludo i wersylloedd llafur maes o law. Cafodd Settela ac aelodau eraill o'i theulu a oedd dal yn y gweryll eu llofruddio yn siambrau nwy Auschwitz, liw nos ar 2 Awst yn ôl pob tebyg pan gafodd pawb oedd ar ôl yng Ngweryll Teuluoedd Sipsi Auschwitz eu lladd.

Yn wahanol i Anne Frank, a adawodd ei dyddiadur i ni, ni adawodd Settela unrhyw beth i ni heblaw'r un ddelwedd drawiadol hon – cipolwg byr mewn ffilm am wersyll dros dro Westerbork. Mae'r ddelwedd hon wedi cyffwrdd miliynau o bobl heb iddyn nhw sylweddoli pwy oedd y ferch.



Yn 2008, cyhoeddodd Janna Eliot, awdur a cherddor Roma o Lundain, llyfr am Settela, yn seiliedig ar waith ymchwil Aad Wagenaar: *Settela's Last Road*. Ceisiodd Eliot lunio naratif tebyg i ddyddiadur o fisoedd olaf Settela gan ddychmygu ei meddyliau, ei hofnau a'i breuddwydion o arwain ei phobl at ryddid, a'u rhoi ar bapur. Roedd llawer o adolygwyr yn gytûn bod hwn yn llyfr ysbrydoledig sy'n haeddu cael ei ddarllen mewn ysgolion ochr yn ochr â dyddiadur Anne Frank.



Er gwaethaf ymdrechion Eliot, ychydig iawn o bobl sydd wedi clywed am y llyfr – arwydd arall bod llawer i'w wneud cyn i dynged y Roma a'r Sinti yn ystod teyrnasiad y Natsïaid gael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn llawn.

I wybod mwy:

- Ysgrifennodd yr Athro Schulze gyfres o naw blog ar gyfer Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer mis Hanes Sipsiwn Roma Teithwyr. Gallwch eu darllen yma: hmd.org.uk/news/gypsy-roma-traveller-history-month-introduction
- Gallwch ddysgu mwy am sut cafodd y Sinti a'r Roma eu herlid yma: hmd.org.uk/porrajmos



@HMD_UK

hmd.org.uk



/HMD.UK